

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021

- YN BRESENNOL:** Cyngorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)
- Cynghorwyr Vaughan Hughes, Robert G Parry, OBE, FRAgS,  
Dylan Rees, Richard Griffiths, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts
- WRTH LAW:** Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  
Swyddog Pwyllgor (SC)
- YMDDIHEURIADAU:** Cyngorydd John Griffith
- 

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

### 2 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW), sy'n nodi'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau etholedig ac Aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd nad yw lwfansau'r IRP wedi cynyddu yn unol â chyflogau ar draws Cymru. Mae'r IRP felly yn cynnig cynyddu taliadau holl Aelodau ac Aelodau cyfetholedig pob Cyngor.

Cytunodd y Pwyllgor fod angen i lwfansau Aelodau gynyddu er mwyn gallu denu trawstoriad ehangach o'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc a merched, i sefyll yn yr etholiad.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y cynigion yn cael eu gosod yn genedlaethol ac y byddant yn weithredol yn dilyn etholiadau Mai 2022.

Nodwyd, pan fydd cyngorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau'r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Bydd gan yr Adroddiad Blynyddol 2022-23 ddau ddyddiad gweithredu, sef:-

- Bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2022.
- Bydd y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn weithredol o 9 Mai 2022.

Mae crynodeb o'r newidiadau arfaethedig wedi eu nodi isod:-

- Cynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig o £14,368 i £16,800.
- Nifer yr uwch gyflogau i aros fel ag y ma ear 16, yn cynnwys y cyflogau dinesig.
- Bydd nifer yr Aelodau etholedig ar Ynys Môn yn cynyddu i 35.
- Cynyddu'r uwch gyflogau a'r cyflogau dinesig fel yr amlinellir isod:-

<b>Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23</b> (gan gynnwys y cyflog sylfaenol)		<b>1 Ebrill – 8 Mai 2022</b>	<b>O 9 Mai 2022</b>
<b>Uwch Gyflogau</b>			
Band 1	Arweinydd	£44,921	£53,550
	Dirprwy Arweinydd	£31,783	£37,485
Band 2	Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith	£27,741	£32,130
Band 3	Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)	£23,161	£25,593
Band 4	Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf	£23,161	£25,593
Band 5	Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall	£18,108	£20,540
<b>Cyflogau Dinesig (os y'u telir)</b>			
Band 3	Pennaeth Dinesig	£23,161	£25,593
Band 5	Dirprwy Bennaeth Dinesig	£18,108	£25,540

Bydd y cynnydd arfaethedig mewn lwfansau a ragwelir gan yr IRP mewn perthynas ag Ynys Môn tua £180,000 yn flynyddol o Mai 2022.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynigion drafft yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23.**

Bu'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd am ei waith ar y Pwyllgor a dymunodd yn dda iddo ar ei ymdeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES  
CADEIRYDD**